

Crynodeb o
Gyllideb Ariannol
2006/2007



CYNGOR

Sir Ddinbych

Denbighshire

COUNTY COUNCIL

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad gan Alan Evans, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adnoddau a Phrif Weithredwr Cynorthwyol	1
Cyngor Sir Ddinbych: Crynodeb o Gyllideb Ariannol 2006/2007	9
Cyfarwyddiaethau:	
Dysgu Gydol Oes	10
Crynodeb o gyllideb Dysgu Gydol Oes	13
Amgylchedd	18
Crynodeb o gyllideb yr Amgylchedd	21
Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	24
Crynodeb o gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	27
Adnoddau	31
Crynodeb o gyllideb Adnoddau	33
Cynllun cyfalaf	36
Cyfrif Refeniw Tai	38

CYFLWYNIAD

Diben y Llyfr Cyllideb hwn yw dangos i Aelodau, Swyddogion a phartïon eraill â diddordeb sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu gwario ei gyllidebau Refeniw a Chyfalaf. Mae Côt Ymarfer Cyfrifeg Gwerth Gorau yn gofyn i Awdurdodau Lleol gyflwyno gwybodaeth ynghylch cyllidebau gwasanaeth ar sail cyfanswm y gost. Mae hyn yn golygu fod rhaid i'r cyllidebau gwasanaeth gynnwys costau cyfalaf a chostau cymorth yn ogystal â chyllidebau gwasanaeth. Mae manylion yn y llyfryn hwn ynghylch costau uniongyrchol y gwasanaethau sydd o dan reolaeth y rhai sy'n dal y cyllidebau. Fe'i cyflwynir ar y ffurf hon er mwyn gwneud y wybodaeth yn haws ei darllen i'r darllenwyr.

Cyllideb Refeniw'r Flwyddyn Ddiwethaf (2005/06)

Gosodwyd cyllideb refeniw net o £142.4 miliwn ar gyfer 2005/06. Cafodd ei monitro'n a'i rheoli'n fanwl ystod y flwyddyn ac adroddir arni'n rheolaidd. Y rhagolwg ar hyn o bryd yw y bydd tanwariant bychan ac adroddir y canlyniad terfynol ym mis Mehefin.

Cyllideb Refeniw Eleni (2006/07)

Mae'r Cyngor Sir wedi gosod cyllideb refeniw crynswth o £229.5 miliwn ar gyfer 2006/07. Bydd y Cyngor yn cynhyrchu £77.8 miliwn mewn ffioedd, taliadau, rhenti tai, grantiau penodol ac incwm arall, gan adael refeniw net o £151.949 miliwn i'w dalu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Threthdalwyr y Cyngor. Eleni derbyniodd Sir Ddinbych setliad sy'n golygu bod yr incwm a geir oddi wrth y Cynulliad wedi cynyddu o 5.9% ac, er ei fod yn cynnwys elfen sylweddol ar gyfer cyfrifoldebau ychwanegol, roedd yn uwch na setliad cyfartalog Cymru o 5.1%. Y prif reswm dros y cynnydd uwch na'r cyfartaledd yng nghefnogaeth y Cynulliad oedd y cynnydd uwch na'r cyfartaledd yn y boblogaeth. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau.


Mae'r Cyngor yn gwario ei gyllideb ar nifer fawr o wasanaethau. Ceir manylion ym mhrif ran y Llyfr Cyllideb hwn ynghylch yr hyn a fydd yn cael ei wario gan bob un o'r pedair Cyfarwyddiaeth:

- Dysgu Gydol Oes
- Amgylchedd
- Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
- Adnoddau

Ceir cyllideb ganolog hefyd ar gyfer Clerc y Sir, Corfforaethol, Budd-daliadau (Treth y Cyngor a Thai), Ardollau a Chyllid Cyfalaf. Dangosir manylion y rhain yng nghefn y llyfr cyllideb. Ceir crynodeb yn y siart dros y dudalen o sut mae'r gwariant hwnnw wedi'i ddyrannu.

Mae'r Cyngor hefyd yn berchen ac yn rheoli tua 3,500 o gartrefi. Nid yw'r gyllideb ar gyfer hyn wedi'i chynnwys yng nghyllideb Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ac fe'i dangosir mewn cyllideb ar wahân. (Gweler yr adran ar Dai)

Cyllideb Refeniw Gross



Caiff y Cyngor ei arian o'r ffynonellau canlynol:

Grant Cynnal Refeniw - £97.845 miliwn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pennu bob blwyddyn faint y cred y dylai Cyngor ei wario ar wasanaethau gan wneud rhagdybiaeth ar lefel yr incwm arall y bydd yn ei dderbyn. Yna bydd yn defnyddio fformiwla ar gyfer dosbarthu cyllideb i bob Cyngor ar ffurf Grant Cynnal Refeniw. Nid oes gan y Cyngor reolaeth dros faint o arian y bydd yn derbyn.

Trethi Annomestig Cenedlaethol - £21.4 miliwn

Dyma'r cyfraniad mae'r busnesau lleol yn ei wneud tuag at wasanaethau lleol. Pennir y swm a delir drwy luosogi gwerth eiddo'r busnes â ffactor disgownt. Mae'r swm y mae'r Cyngor yn ei dderbyn yn wahanol i'r swm y mae busnesau yn ei dalu gan fod yr incwm i gyd yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i ailddyrannu ar sail fformiwla. Nid oes gan y Cyngor chwaith reolaeth dros faint a godir ar fusnesau nac ychwaith faint mae'n ei dderbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Treth y Cyngor - £32.2 miliwn

Ar ôl i'r Cyngor benderfynu ar ei flaenoriaethau, ac ar ôl cyhoeddi'r holl ffrydiau ariannu eraill, cyllidir gweddill ei wariant drwy Dreth y Cyngor.

Ffioedd ac Incwm Arall - £26.9 miliwn

Mae'r rhain yn amrywio o ffioedd cynllunio i ffioedd mynd i bwl nofio. Maent yn rhan bwysig o incwm y Cyngor. Mae'r Cyngor yn ystyried ei holl ffioedd yn ofalus i sicrhau eu bod yn unol â'r hyn y mae'r ddeddf yn dweud y gellir neu na ellir ei wneud; eu bod yn cydymffurfio â pholisïau'r Cyngor (i sicrhau nad yw pobl dan anfantais oherwydd na allant fforddio talu); a hefyd i sicrhau ein bod yn sicrhau gwerth am arian ac yn

talau digon tuag at gostau darparu rhai gwasanaethau. Mae nifer o grantiau amhenodol wedi'u cynnwys yn y ffigwr hwn.

Grantiau Penodol - £27.5 miliwn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU yn dyrannu grantiau i wasanaethau penodol er mwyn sicrhau bod polisiâu cenedlaethol yn cael eu cyflwyno ar lefel leol. Rheolaeth gyfyngedig iawn sydd gan y Cyngor dros faint y mae'n ei dderbyn a sut y gellir ei wario.

Budd-daliadau - £20.6 miliwn


Mae'r Cyngor yn talu tua £20.6 miliwn y flwyddyn mewn budd-daliadau Treth y Cyngor a Thai i breswylwyr Sir Ddinbych. Ariannir y gost hon bron yn gyfan gwbl gam grantiau'r llywodraeth.

Buddsoddiadau - £1.842 miliwn

Mae'r Cyngor yn buddsoddi arian dros ben gyda nifer o sefydliadau i sicrhau ei fod yn ennill llogau da heb fawr o risg i'r Cyngor.

Rhenti Tai'r Cyngor - £9 miliwn

Rhaid i Adran Dai'r Cyngor fod yn hunangyllidol a'i incwm rhent yn talu am gostau rheoli a chynnal a chadw'r stoc dai.



Cyllideb Net 2006/07

Cyllideb Net 2006/07 yw'r swm mae'r Cyngor ei angen o Dreth y Cyngor, Trethi Busnes a'r Grant Cynnal Refeniw i gyllido ei wasanaethau. Mae'r manylion fel a ganlyn:

	£000
Cyllideb Sylfaenol Ddiwygiedig 2005/06	142,382
Chwyddiant a chynyddiadau ymrwymedig eraill	4,790
Newidiadau yn y dull o gyllido	2,187
Cyfrifoldebau ychwanegol ar yr Awdurdod	2,249
Pwysau gwasanaeth pellach	2,947
Cynilion effeithlonrwydd targedig	(2,604)
Cyllideb 2006/07	151,949

(i) Cyfrifoldebau ychwanegol ar yr Awdurdod

Derbyniodd yr eitemau canlynol arian ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru:

	£000
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1,728
Treth Tirlenwi	140
Llwyth Gwaith Athrawon	381
	2,249

Penderfynodd y Cyngor roi adnoddau ychwanegol i'r meysydd canlynol:

Ysgolion – i daclo perfformiad isel yng Nghyfnod Allweddol 3	470
Cyllid Cyfalaf - i gyllido benthyciad ychwanegol o tua £4 miliwn i'w wario ar flaenoriaethau'r Cyngor	385
Gwario i Gynilo - i gyllido costau unwaith ac am byth a fyddai'n lleihau gwariant yn y dyfodol	220
Cronfeydd aelodau - i gyllido materion penodol mewn wardiau unigol a benthyciad i fynd i'r afael â phryderon lleol	70
	1,145

(ii) Chwyddiant

Gwnaed digon o lwfans ynghylch chwyddiant, codiadau cyflog, cynyddiadau mewn prisiau ac incwm. Mae costau tanwydd ac ynni wedi codi'n sylweddol.

(iii) Balansau

Roedd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £5.2 miliwn ar 31 Mawrth 2006, ynghyd â lefel ddarbodus o gronfeydd penodol wrth gefn. Ni chyllidwyd ar gyfer cyfrannu tuag at y balansau eleni.

(iv) Effeithlonrwydd

Fel rhan o agenda effeithlonrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Creu'r Cysylltiadau', mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi brigdorri 1% o gyllid y Cyngor. Mae hyn tua £1.5 miliwn. Tybir y gall y Cyngor ddygymod â'r golled hon drwy wella effeithlonrwydd

megis gwella caffael, mwy o gydweithio a defnydd cynyddol o dechnoleg a hynny heb amharu ar wasanaethau.

Gosodwyd targedau arbedion effeithlonrwydd i bob Cyfarwyddiaeth. Mae'r arbedion hyn yn ychwanegol at arbedion arian parod eraill sydd ei angen i dalu am bwysau'r cyllidebol.

Treth y Cyngor 2006/07

Bu Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ailbriso'r pob eiddo yng Nghymru yn ystod 2004 / 05 at ddibenion bandio Treth y Cyngor, a daw'r bandiau gwerthoedd newydd i rym ym mis Ebrill 2005. Arweiniodd hyn at ganran uchel o Drethdalwyr Cyngor yn wynebu cynyddiadau o un band neu fwy.

Cyflwynwyd y cynyddiadau hyn yn raddol fel nad oedd unrhyw un yn wynebu cynnydd o fwy nag un band y flwyddyn. Cafwyd nifer o apeliadau yn erbyn y bandiau newydd a bydd peth amser yn mynd heibio cyn y bydd canlyniadau'r rhain yn hysbys. Bydd yr ailbriso'n effeithio ar nifer y tai sydd mewn pob band, ac felly ar gyfanswm yr incwm y gall y Cyngor ei gasglu.

Eleni cytunodd Aelodau ar gynnydd o 2% yn Nhreth y Cyngor, sef y cynnydd isaf yn hanes Cyngor Sir Ddinbych a'r isaf yng Nghymru yn ystod 2006 / 07.

Ceir manylion isod o Dreth y Cyngor sy'n daladwy ar gyfer pob band eiddo am y gwasanaeth a ddarparir gan Gyngor Sir Ddinbych:

Band Treth	Treth y Cyngor 2005/06	Treth y Cyngor 2006/07
A	£576.47	£587.99
B	£672.54	£685.99
C	£768.62	£783.99
D	£864.70	£881.99
E	£1,056.86	£1,077.99
F	£1,249.01	£1,273.99
G	£1,441.17	£1,469.98
H	£1,729.40	£1,763.98
I	£2,017.63	£2,057.98

Tai

Mae gan y Cyngor ddwy rôl yn ymwneud â thai. Y cyntaf yw rôl statudol i daclo digartrefedd yn y Sir. Yr ail yw fel landlord stoc dai'r Cyngor o tua 3,500 o gartrefi. Mae'r gyllideb ar gyfer digartrefedd wedi'i chynnwys yng nghronfa gyffredinol y Cyngor, ond cyllidebir ar gyfer y stoc dai ar wahân.

Cedwir y gyllideb ar gyfer y stoc dai yn y Cyfrif Refeniw Tai. Yn ôl y gyfraith rhaid cadw'r gyllideb hon yn gwbl ar wahân i wasanaethau eraill. Ni ellir defnyddio Treth y Cyngor i ariannu unrhyw wariant Cyfrif Refeniw Tai ac ni ellir defnyddio rhenti tai ar gyfer unrhyw beth heblaw gwasanaethau tai. Eleni bydd yn gwario £9 miliwn. Fe'i

hariannir gan renti tai o £8.8 miliwn, rhenti garejys o £0.1 miliwn a ffynonellau ariannu bychan eraill o £0.1 miliwn.


Cynllun Cyfalaf 2006/07

Rhaid i'r Cyngor gyfrif am ei fuddsoddiadau yn ei asedau sefydlog ar wahân i gostau rhedeg beunyddiol ei sefydliad.

Mae prosiectau cyfalaf yn cynnwys cynlluniau megis gwella priffyrdd, ailwampio adeiladau, prynu offer TG mawr, prynu cerbydau ayyb.

Bob blwyddyn cynhyrchir cynllun cyfalaf 3 mlynedd sy'n rhoi manylion o lle mae'n debygol o wario ei gyllid. Cytunodd y Cyngor ar y Cynllun Cyfalaf rhwng 2006/07 a 2008/09 yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2006.

Mae'r Cyngor yn cyflwyno ei broses blaenoriaethu cyfalaf ar gyfer 2006/07. Bydd hyn yn sicrhau y bydd yr holl brosiectau sydd i'w hariannu o'r cynllun cyfalaf yn cael eu gwerthuso a'u sgorio yn erbyn amcanion a blaenoriaethau penodol y Cyngor. Disgwylir gwario cyfanswm o £36.688 miliwn ar wasanaethau'r gronfa gyffredinol gyda £7.4 miliwn pellach ar gynlluniau Cyfrif Refeniw Tai yn 2006/07, gyda'r arian wedi'i rannu fel a ganlyn:



Cyllidir y Cynllun Cyfalaf drwy nifer o ffynonellau:

Cyllid Cyffredinol - £10.3 miliwn

- **Benthyca â Chymorth - £8.6 miliwn.** Dyma'r cyllid a geir oddi wrth y Cynulliad i dalu'r llog ar fenthyciadau a fuddsoddir mewn asedau. Yn 2006/07 bydd y Cynulliad yn rhoi cefnogaeth i Sir Ddinbych i fenthyg o £5.780 miliwn o'r newydd, cynnydd o £0.004 miliwn o gymharu â setliad 2005/06. Mae

gweddill y cyllid yn fenthyciad a oedd i fod i gael ei fuddsoddi yn 2005/06 ond na wnaed oherwydd llithriad yn y rhaglen gyfalaf.

- **Grant Cyffredinol - £1.7 miliwn.** Mae hwn yn grant gan y Cynulliad y gellir ei wario ar unrhyw gynlluniau cyfalaf y penderfyna'r Cyngor sy'n flaenoriaeth. Yn 2006/07 bydd y grant yn £1.732 miliwn lleihad o £0.004 miliwn o'i gymharu â'r llynedd.

Benthyca heb Gymorth / Benthyca Darbodus - £11 miliwn

Dyma'r cyllid y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio i dalu am fenthyciadau. O dan y Côd Ymarfer Benthyca Darbodus mae cyfyngiadau a dangosyddion gwirfoddol ar gyfer hyn. Mae rhan o'r cynnydd eleni yn Nhreth y Cyngor ar gyfer ariannu'r benthyca cynyddol er mwyn targedu buddsoddiad yng ngwasanaethau blaenoriaeth.

Cyllid Arbennig - £20.2 miliwn

Mae'r rhain yn grantiau y gellir eu defnyddio ar gyfer un prosiect neu raglen yn unig. Ceir y prif grantiau gan wahanol adrannau'r llywodraeth, yr Undeb Ewropeaidd ac arian y Loteri.

Derbyniadau Cyfalaf - £2 miliwn


Pan werthir ased, mae'r arian a dderbynnir gennym yn dderbyniad cyfalaf. Dim ond i dalu am waith cyfalaf pellach neu dalu dyled y gellir defnyddio'r arian hwn.

Defnyddio Refeniw neu Gronfeydd Wrth Gefn - £0.551 miliwn

Mae'r arian hwn wedi'i roi o'r neilltu i dalu'n uniongyrchol am wariant cyfalaf yn hytrach na thalu llog ar fenthyciad.

Ceir manylion y cynllun cyfalaf ar ddiwedd y llyfr cyllideb.

Arian Cyfalaf



Y Blynyddoedd i Ddod

Ar hyn o bryd hysbysir y Cyngor bob mis Tachwedd o'r arian mae'n debygol o dderbyn ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Dim ond cyfnod gweddol byr mae hyn yn ei adael i gytuno ar y gyllideb a gosod Treth y Cyngor ym mis Mawrth.

Yn ddiweddar lansiodd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghoriad ynghylch setliadau 3 mlynedd a fyddai, pe byddai'n cael ei weithredu, yn galluogi'r Cyngor i gynllunio ei gyllid mewn modd mwy strategol. Hwyrach y bydd hyn yn effeithio ar y ffordd y bydd y gyllideb yn cael ei hystyried, ei pharatoi a'i hadrodd.

Casgliad

Mae'r Cyngor yn parhau i addasu i amgylchedd sy'n newid yn gyson ac yn delio â'r gofynion ychwanegol a osodir arno drwy ddeddfwriaeth a mentrau newydd. Mae hyn yn achosi pwysau ariannol sylweddol ac yn golygu bod yn rhaid i swyddogion ac aelodau geisio bob yn fwy effeithlon a darbodus yn gyson wrth gyflwyno'r gwasanaethau gorau posibl.

Golyga agenda effeithlonrwydd y Llywodraeth a thynhau cyffredinol ar wariant cyhoeddus y bydd hyn yn parhau am beth amser.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gydweithrediad a gwaith caled swyddogion ac aelodau wrth baratoi'r gyllideb hon.

ALAN EVANS

CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL:

ADNODDAU

**CYNGOR SIR DDINBYCH
CRYNODEB O GYLLIDEB ARIANNOL**

2005/2006			2006/07		
Cyllideb £000	Gwariant Gwirioneddol £000		Gwariant Crynswth £000	Incwm £000	Gwariant Net £000
64,479	64,445	Dysgu Gydol Oes	82,671	14,922	67,749
20,324	20,118	Amgylchedd	37,196	15,649	21,547
31,664	31,295	Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai	51,240	15,392	35,848
5,811	5,693	Adnoddau	8,617	2,636	5,981
1,426	1,474	Clerc y Sir	2,002	569	1,433
3,711	4,013	Corfforaethol	26,651	22,440	4,211
<hr/> 127,415	<hr/> 127,038		<hr/> 208,377	<hr/> 71,608	<hr/> 136,769
10,992	9,674	Cyllid Cyfalaf	10,995		10,995
<hr/> 138,407	<hr/> 136,712		<hr/> 219,372	<hr/> 71,608	<hr/> 147,764
3,975	3,976	Ardollau	4,185		4,185
<hr/> 142,382	<hr/> 140,688		<hr/> 223,557	<hr/> 71,608	<hr/> 151,949
	1,012	Cyfraniadau at / (gan) y balansau			
	454	Cyfraniadau at gronfeydd wrth gefn			
<hr/> 142,382	<hr/> 142,154	Cyfanswm Gwariant y Gronfa Gyffredinol	<hr/> 223,557	<hr/> 71,608	<hr/> 151,949
0	0	Cyfanswm y Cyfrif Refeniw Tai	8,995	8,995	0
<hr/> 142,382	<hr/> 142,154	CYFANSWM TERFYNOL	<hr/> 232,552	<hr/> 80,603	<hr/> 151,949

I'w ariannu gan:

90,791	90,563	Grant Cynnal Refeniw			97,945
19,639	19,639	Trethdalwyr Busnes			21,422
31,566	31,566	Trethdalwyr Cyngor			32,196
386	386	Grantiau Eraill			386
<hr/> 142,382	<hr/> 142,154	Cyfanswm Incwm y Gronfa Gyffredinol			<hr/> 151,949

CYFARWYDDIAETH DYSGU GYDOL OES

CRYNODEB O GYLLIDEB ARIANNOL

Cyflwyniad

Mae'r Gyfarwyddiaeth Ddysgu Gydol Oes yn cynnwys y Gwasanaeth Addysg, Diwylliant a Hamdden, a Strategaeth ac Adnoddau. Ac eithrio'r staff dysgu, mae'r Gyfarwyddiaeth yn cyflogi 490 o staff mewn sawl man drwy'r Sir.

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn rheoli portffolio mawr o eiddo wrth gyflwyno ei wasanaethau i ddisgyblion, rhieni, defnyddwyr gwasanaeth, busnesau ac etholwyr. Er mwyn gallu cyflwyno gwasanaethau Addysg yn effeithiol mae'r Gyfarwyddiaeth yn dibynnu ar ei 52 Ysgol Gynradd, 8 Ysgol Uwchradd a 2 Ysgol Arbennig. Er mwyn sicrhau darparu Gwasanaethau Diwylliant a Hamdden effeithiol, mae'r Gyfarwyddiaeth yn rheoli nifer o gyfleusterau gan gynnwys 7 Canolfan Hamdden, 4 Amgueddfa / Atyniad Treftadaeth, 8 Llyfrgell a 4 Theatr / Lleoliad Celfyddydol.

Blaenoriaethau Allweddol

Mae gan i Gwasanaethau Addysg 5 blaenoriaeth ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2005 a 2008 sef:


- Cefnogi ysgolion i godi safonau
- Adolygu gwasanaethau ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Addysgol Arbennig
- Gweithredu rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer staff a Llywodraethwyr
- Darparu darpariaeth ddysgu newydd yn y Rhyl ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysg Arbennig
- Gweithredu polisiau a strategaethau corfforaethol

Mae gan Ddiwylliant a Hamdden 6 thema ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2005 a 2008 i gynorthwyo i gyflawni'r weledigaeth o hyrwyddo Diwylliant a Hamdden yn Sir Ddinbych:

- Agor Drysau
- Dysgu am Oes
- Cyfleoedd i Bawb
- Gweithio Gydag a Thrwy Eraill
- Ymdrechu am y Gorau
- Cyflwyno'r Weledigaeth

Cyllideb y Gyfarwyddiaeth 2006-07

Mae cyllideb y flwyddyn ar gyfer y Gyfarwyddiaeth yn £67,748,805 wedi'i dorri i lawr i'r meysydd canlynol:



Nodyn: Mae 'Dirprwyedig i'r Ysgolion' yn cyfeirio at gyllideb a basir ymlaen at gyrff llywodraethu ysgolion, sy'n penderfynu sut y dylid gwario'r arian.

Mae cyllideb 2006-07 yn cynrychioli cynnydd o 5% ar y llynedd, gydag arian ychwanegol ar gael eleni ar gyfer meysydd sydd o dan bwysau ariannol e.e. Trafnidiaeth Ysgol ac Anghenion Addysgol Arbennig. Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion yn dal i ostwng sy'n grynnu bryder i'r Gyfarwyddiaeth ac, oherwydd hynny mae £100 mil ar gael eleni er mwyn comisiynu adolygiad o Reoli Lleoedd Ysgol.

Dangosir y prif newidiadau o gyllideb 2005-06 i gyllideb eleni yn y tabl canlynol:

	£000
Cyllideb 2005-06	64,479
Chwyddiant	1,775
Trosglwyddiadau o arian grant penodol	445
Trefniant Llwyth Gwaith	381
Cynorthwyyr Cymorth Dysgu	235
Moderneiddio Addysg	100
Trafnidiaeth Ysgol a Choleg	447
Targedu Cyfnod Allweddol 3	470
Tyfiant arall	277
Trosglwyddiadau o wasanaethau eraill	25
Effeithlonrwydd (gweler isod)	(385)
Arbedion eraill (caffaeliad, ffioedd a thaliadau, Ailbroffilio Grant ayyb)	(500)
Cyllideb 2006-07	67,749

Effeithlonrwydd

Y targed ar gyfer arbedion trwy wella effeithlonrwydd ar gyfer y flwyddyn yw £380,790. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn ceisio gwella'i effeithlonrwydd bob amser ac yn chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o weithio. Cyflawnir hyn yn y meysydd canlynol:

	£	
Cytundebau caffael newydd	134,000	
Defnydd mwy effeithiol o staff (enillion cynhyrchiant, gwell presenoldeb)		125,000
Rheoli swyddi gweigion a staff / adolygu swyddi		25,101
Gwell defnydd o gyflenwadau ac offer gwasanaethau	30,185	
Cyflwyno ffioedd a thaliadau newydd	25,000	
Arall	41,504	
Cyfanswm	380,790	

Prosiectau Arfaethedig

Bydd y deuddeng mis nesaf yn gyfnod cyffrous ar gyfer y Gyfarwyddiaeth gan fod sawl prosiect pwysig ar y gweill a fydd yn cyfoethogi ac yn annog pobl i fyw ac ymweld â Sir Ddinbych:

- Gweddnewid Canolfan Grefftau Rhuthun yn ganolfan genedlaethol ar gyfer celfyddydau cyfoes a chymhwysol
- Ailadeiladu Sinema Scala a Chanolfan Gelfyddydau Prestatyn i ddarparu ffocws cymunedol newydd a gwell ansawdd bywyd ar gyfer pobl leol
- Canolfannau Dysgu Cymunedol yn dod â dysgu i gyrraedd pawb
- Datblygu Ysgol Gynradd newydd ym Mhrestatyn

CRYNODEB O GYLLIDEB DYSGU GYDOL OES

	GWARIANT GROS £	GRANTIAU PENODOL £	FFIOEDD A PHRISIAU £	INCWM ARALL £	CYFANSWM INCWM £	CYLLIDEB NET £
ADDYSG						
Cyllideb Ysgolion Unigol	52,754,879	(4,008,752)	0	0	(4,008,752)	48,746,127
Cronfeydd Ysgol yn cael eu dal yn Ganolog	15,724,279	(3,332,763)	(2,650)	(1,320,250)	(4,655,663)	11,068,616
Cyllid Heblaw Ysgol	2,006,138	(879,276)	(2,147)	(53)	(881,476)	1,124,662
DIWYLLIANT A HAMDDEN						
Diwylliant	3,122,021	(104,973)	(131,890)	(128,973)	(365,836)	2,756,185
Cefn Gwlad	1,017,906	(487,582)	(79,975)	(21,115)	(588,672)	429,234
Gwasanaethau Hamdden	7,120,160	(1,118,879)	(2,491,880)	(520,054)	(4,130,813)	2,989,347
Gwasanaethau Corfforaethol	442,821	(4,570)	0	0	(4,570)	438,251
TWRISTIAETH						
Twristiaeth	84,491	0	(525)	0	(525)	83,966
TWRISTIAETH, DIWYLLIANT A HAMDDEN						
Twristiaeth, Diwylliant a Threftadaeth	112,427	0	0	(10)	(10)	112,417
CYFANSWM DYSGU GYDOL OES	82,385,122	(9,936,795)	(2,709,067)	(1,990,455)	(14,636,317)	67,748,805

	CYLLIDEB 2005/2006 £	GWIRIONEDDOL 2005/2006 £	CYLLIDEB 2006/2007 £
ADDYSG			
CYLLIDEB YSGOLION UNIGOL			
Ysgolion cynradd - dirprwyedig	21,138,419.00	21,198,608.23	22,524,159.00
Ysgolion uwchradd - dirprwyedig	21,610,175.00	21,668,822.43	22,771,300.00
Ysgolion arbennig - dirprwyedig	3,388,101.00	3,475,725.48	3,450,668.00
CYFANSWM CYLLIDEB YSGOLION UNIGOL	46,136,695.00	46,343,156.14	48,746,127.00
CRONFEYDD YSGOL YN CAEL EU DAL YN GANOLOG			
YSGOLION HEB EU DIRPRWYO			
Ysgolion cynradd – heb eu dirprwyo	1,408,333.00	1,350,946.11	1,407,336.00
Ysgolion uwchradd - heb eu dirprwyo	1,688,082.00	1,587,590.51	1,388,697.00
Ysgolion arbennig - heb eu dirprwyo	164,835.00	125,053.31	163,198.00
CYFANSWM YSGOLION HEB EU DIRPRWYO	3,261,250.00	3,063,589.93	2,959,231.00
RHEOLAETH STRATEGOL			
Rheolaeth ac ysgrifenyddiaeth	333,695.00	308,917.20	343,360.00
Gweinyddu	226,352.00	149,876.06	234,627.00
Gwasanaethau ariannol	298,249.00	279,177.65	299,277.00
Personél	139,097.00	155,452.34	169,312.00
Busnes a pherfformiad	63,266.00	60,349.84	65,125.00
CYFANSWM RHEOLAETH STRATEGOL	1,060,659.00	953,773.09	1,111,701.00
MYNEDIAD			
Rheoli Asedau	173,143.00	151,866.85	323,794.00
Gwasanaethau cleient	129,854.00	(28,222.42)	123,131.00
Cludiant cartref i ysgol	1,617,351.00	1,844,802.01	1,967,819.00
Gweithwyr Cymdeithasol Addysg	206,019.00	175,816.27	176,954.00
CYFANSWM MYNEDIAD	2,126,367.00	2,144,262.71	2,591,698.00
GRANTIAU PENODOL			
Grantiau ar gyfer Addysg, Cefnogaeth a Hyfforddiant	686,950.00	686,950.00	581,675.00
Grantiau'r Iaith Gymraeg	51,045.00	51,391.59	49,797.00
Saesneg fel Iaith Ychwanegol	0.00	0.00	129,899.00
CYFANSWM GRANTIAU PENODOL	737,995.00	738,341.59	761,371.00
GWELLA YSGOLION			
Data Tim	218,224.00	142,547.76	216,893.00
Offer, cynnal a chadw	16,208.00	17,940.74	16,067.00
Ymgynghori	862,452.00	739,090.48	869,015.00
CYFANSWM GWELLA YSGOLION	1,096,884.00	899,578.98	1,101,975.00
ANGHENION ARBENNIG			
Uned Cyfeirio Disgybl	806,055.00	831,578.65	859,283.00
Cludiant Anghenion Addysgol Arbennig	990,393.00	1,098,688.61	1,150,338.00

	CYLLIDEB 2005/2006 £	GWIRIONEDDOL 2005/2006 £	CYLLIDEB 2006/2007 £
Gwasanaethau Datganiad	265,279.00	229,352.14	230,541.00
Seicoleg Addysgol	308,465.00	329,316.42	314,034.00
Cefnogaeth synhwyrol	209,597.00	198,702.46	213,798.00
Tîm datblygu dysgu	261,442.00	294,236.21	327,263.00
Cefnogaeth ymddygiad gymhwysol	217,904.00	200,443.18	223,971.00
Cefnogi disgyblion	99,795.00	373,984.78	10,113.00
Addysg arbennig - cyffredinol	23,539.00	4,097.49	24,009.00
Addysg arbennig allan o sir	(996,689.00)	(1,079,139.69)	(1,027,059.00)
CYFANSWM ANGHENION ARBENNIG	2,185,780.00	2,481,260.25	2,326,291.00
ADDYSG DDIWYLLIANNOL			
Canolfannau awyr agored	95,770.00	93,928.16	97,685.00
Hyfforddiant cerddoriaeth	116,473.00	108,172.22	118,664.00
CYFANSWM ADDYSG DDIWYLLIANNOL	212,243.00	202,100.38	216,349.00
CYFANSWM CRONFEYDD YSGOL YN CAEL EU DAL YN GANOLOG			
	10,681,178.00	10,482,906.93	11,068,616.00
CYLLID HEBLAW YSGOL			
Addysg Cyn Ysgol	2,456.00	414.80	199.00
Canolfannau plant integredig	0.00	0.00	315.00
Cefnogaeth ar gyfer myfyrwyr	105,457.00	94,025.65	104,394.00
Pensiynau gweddiol	77,164.00	74,091.00	76,247.00
Cludiant – disgyblion coleg	285,639.00	341,365.83	358,769.00
Gwasanaeth Ieuenctid	570,851.00	533,898.21	584,738.00
CYFANSWM CYLLID HEBLAW YSGOL	1,041,567.00	1,043,795.49	1,124,662.00
CYFANSWM ADDYSG	57,288,589.00	57,335,960.35	60,354,667.00
DIWYLLIANT A HAMDDEN			
DIWYLLIANT			
LLYFRGELLOEDD A GWYBODAETH			
Llyfrgelloedd	1,398,288.00	1,413,965.19	1,436,898.00
Gwasanaeth llyfrgell symudol	66,692.00	67,177.53	68,931.00
Gwasanaeth llyfrgell ysgol	0.00	0.00	29.00
Llyfryddiaeth	57,309.00	57,211.89	58,818.00
Gwasanaeth gwybodaeth gofal plant	28,947.00	27,722.28	29,787.00
CYFANSWM LLYFRGELLOEDD A GWYBODAETH	1,551,236.00	1,566,076.89	1,594,463.00
DIWYLLIANT A THREFTADAETH			
Archifau	211,259.00	200,964.12	238,177.00
Treftadaeth	181,341.00	219,852.92	195,665.00
Celfyddydau	137,751.00	137,379.34	140,661.00
Diwylliant arall	358,363.00	339,503.52	366,884.00
Addysg	845.00	494.20	855.00
CYFANSWM DIWYLLIANT A	889,559.00	898,194.10	942,242.00

	CYLLIDEB 2005/2006 £	GWIRIONEDDOL 2005/2006 £	CYLLIDEB 2006/2007 £
THREFTADAETH			
SIOPAU UN STOP			
Siopau un stop	212,811.00	203,675.40	219,480.00
CYFANSWM SIOPAU UN STOP	212,811.00	203,675.40	219,480.00
CYFANSWM DIWYLLIANT	2,653,606.00	2,667,946.39	2,756,185.00
CEFN GWLAD			
Cefn gwlad – Rheolaeth a Chefnogaeth	80,858.00	83,381.38	24,996.00
Gwasanaeth Gwarden	149,286.00	165,176.80	175,056.00
Gwasanaethau Ymwelwyr	80,288.00	90,849.48	82,348.00
Prosiectau Cefn Gwlad	48,601.00	56,440.05	42,165.00
Coetiroedd a Chadwraeth	51,208.00	45,913.39	52,713.00
Archeoleg	33,463.00	33,445.09	34,428.00
Ecoleg	16,999.00	13,739.20	17,528.00
Grug a Chaerau	0.00	0.48	0.00
CYFANSWM CEFN GWLAD	460,703.00	488,945.87	429,234.00
GWASANAETHAU HAMDDEN			
Gwasanaethau Hamdden Rheolaeth a Chefnogaeth	165,069.00	138,540.23	200,632.00
Datblygu Chwaraeon	138,729.00	128,039.34	137,909.00
Hamdden a Digwyddiadau	115,994.00	99,989.89	115,834.00
Cyrchfannau a Mwynderau	191,024.00	143,771.26	180,797.00
Canolfan Grefft Rhuthun	72,984.00	74,146.87	73,198.00
Pafiliwn Cydwladol Brenhinol	227,509.00	156,199.74	234,929.00
Eisteddfod Gydwladol Llangollen	19,440.00	72,884.26	19,859.00
Canolfan Hamdden Corwen	162,620.00	158,196.67	192,951.00
Canolfan Hamdden y Rhyl	219,080.00	367,223.89	186,650.00
Canolfan Hamdden Prestatyn	38,295.00	21,187.07	38,630.00
Canolfan Hamdden Llanelwy	40,848.00	20,929.97	42,859.00
Canolfan Hamdden Dinbych	121,179.00	120,625.41	127,603.00
Canolfan Hamdden Rhuthun	73,339.00	62,211.55	83,991.00
Canolfan Hamdden Llangollen	84,073.00	78,721.28	85,082.00
Theatr y Pafiliwn	521,013.00	527,092.35	538,353.00
Adeiladau Cymunedol	202,413.00	177,175.45	210,972.00
Sinema'r Scala	5,253.00	(7,430.38)	4,191.00
Parciau, Caeau Chwarae a Mannau Agored	113,525.00	97,394.91	125,438.00
Grantiau	295,706.00	269,891.63	273,000.00
Canolfan Hamdden Gymunedol			
Christchurch	0.00	0.00	23,000.00
Gwasanaethau Cefn Gwlad a Hamdden	256,599.00	230,329.82	93,469.00
CYFANSWM GWASANAETHAU HAMDDEN	3,064,692.00	2,937,121.21	2,989,347.00
CYFANSWM DIWYLLIANT A HAMDDEN,	3,525,395.00	3,426,067.08	3,418,581.00
GWASANAETHAU CORFFORAETHOL			
Cydraddoldebau	180,354.00	235,057.32	179,004.00

	CYLLIDEB 2005/2006 £	GWIRIONEDDOL 2005/2006 £	CYLLIDEB 2006/2007 £
Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus	122,663.00	108,175.50	120,067.00
Llais y Sir	137,211.00	137,509.12	139,180.00
CYFANSWM GWASANAETHAU CORFFORAETHOL	440,228.00	480,741.94	438,251.00
TWRISTIAETH			
Marchnata	0.00	0.00	83,966.00
CYFANSWM TWRISTIAETH	0.00	0.00	83,966.00
CYFANSWM TWRISTIAETH, DIWYLLIANT A THREFTADAETH			
Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant	0.00	0.00	112,417.00
CYFANSWM TWRISTIAETH, DIWYLLIANT A THREFTADAETH	0.00	0.00	112,417.00
CYFANSWM DYSGU GYDOL OES	64,478,669.00	64,444,613.97	67,748,805.00

<p style="text-align: center;">AMGYLCHEDD</p> <p style="text-align: center;">CRYNODEB O'R GYLLIDEB ARIANNOL</p>

Cyflwyniad

Mae Cyfarwyddiaeth Amgylchedd yn cynnwys Cludiant Cyhoeddus, Priffyrdd a Seilwaith, Defnydd Tir, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu a'r Gwasanaethau Amgylcheddol.

Blaenoriaethau Allweddol


Mae gan Amgylchedd 6 blaenoriaeth ar gyfer 2005 – 2008 gan gynnwys:

- Gweithredu blaenoriaethau'r Cyngor – gwella adeiladau ysgol, gwella ffyrdd, gwella amgylchedd arbennig Sir Ddinbych.
- Gwella meysydd allweddol o ddarpariaeth gwasanaeth a nodwyd yn yr asesiad risg.
- Gweithredu rhaglen o welliannau i systemau rheoli gwybodaeth a phrosesau busnes.
- Rheoli adnoddau ariannol yn unol â'r cyllidebau, cynlluniau a blaenoriaethau a gytunwyd.
- Gweithredu rhaglen o welliannau i wasanaethau canolbwynt y cwsmer a chymunedol.
- Gweithredu rhaglen o ddatblygu a chadw staff er mwyn cefnogi cynlluniau gwella.

Cyllideb Cyfarwyddiaeth 2006 - 07

Mae cyllideb y Gyfarwyddiaeth am y flwyddyn yn £21,547,160 ac yn cael ei rannu rhwng y meysydd gwasanaeth canlynol:

2006/07 Cyllideb



Mae cyllideb 2006 – 07 yn cynrychioli cynnydd o £20,374,000, sef 6%, ar gyllideb 2005 / 06.

Noldir y prif newidiadau o'r gyllideb 2005 - 06 i eleni yn y tabl canlynol:

	£000
Cyllideb 2005 - 06	20,374
Chwyddiant	960
Pwysau Gwasanaeth	488
Cronfeydd Penodol Ychwanegol Llywodraeth Cynulliad Cymru	140
Gwriadau i'r Gyllideb	17
Arbedion Effeithlonrwydd	(156)
Arbedion Pellach	(276)
Cyllideb 2006 - 07	21,547

Pwysau Gwasanaeth

Fel rhan o'r cylch cyllidebol 2006 / 07 gofynnwyd i'r Cyfarwyddiaethau nodi nifer o bwysau ar y gwasanaeth y maent yn dymuno eu cyflwyno i'w hystyried ar gyfer cyllid ychwanegol. O'r £1,226,000 a nodwyd, caniatwyd £453,000 ar gyfer chwyddiant, cafodd swm o £110,000 ei gynnwys yn y setliad, ni dderbyniwyd £175,000 a chaniatwyd £488,000 fel tyfiant arfaethedig.

Effeithiolrwydd ac Arbedion Pellach

Roedd gofyn i'r Gyfarwyddiaeth gael hyd i arbedion effeithiolrwydd o £432,000, sef y swm gwreiddiol £156,000 y gofynnwyd amdano gan y Cynulliad a £276,000 o arbedion ychwanegol er mwyn lleihau'r effaith ar lefel Treth y Cyngor yn 2006 / 07. Mae'r tabl isod yn amlygu rhai o'r arbedion arfaethedig:

	Mesurau Effeithiolrwydd	Arbedion Pellach £000
	£000	
Codi tâl am barcio ceir ar Bromenâd y Rhyl		150
Incwm o ffioedd ychwanegol – Gwasanaethau		32
Datblygu		40
Adolygu a rhesymoli taliadau parcio ceir	42	
Arbedion yn dilyn Ail Strwythuro Staff	22	
Adolygu'r defnydd o ymgynghorwyr ar wahanol wasanaethau	92	54
Arall – fel y manylir arno yn Adroddiad i'r Cyngor Sir 14 Chwefror 2006		
Cyfanswm	156	276

Cronfeydd Penodol Ychwanegol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cafwyd cyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch Treth Tirlenwi (£110,000) a Thrwyddedu Swyddfa Ei Mawrhydi (£30,000).

Crynodeb

Mae'r Gyfarwyddiaeth yn wynebu rhai heriau arwyddocaol iawn yn 2006 / 07 gan gynnwys y disgwyl cynyddol am ddarparu gwasanaeth gwell, cadw o fewn cyllideb 2006 / 07 a chyrraedd yr arbedion effeithiolrwydd a nodwyd.

CRYNODEB O GYLLIDEB AMGYLCHEDD

	GWARIANT GROS £	GRANTIAU PENODOL £	FFIOEDD A PHRSIAU £	INCWM ARALL £	CYFANSWM INCWM £	CYLLIDEB NET £
Gwasanaethau Datblygu	9,108,490	(2,229,382)	(443,695)	(2,428,582)	(5,101,659)	4,006,831
Gwasanaethau Amgylcheddol	13,295,964	(25,113)	(3,041,964)	(1,270,266)	(4,337,343)	8,958,621
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	4,237,502	(198,337)	(1,524,697)	(212,231)	(1,935,265)	2,302,237
Trafnidiaeth a Seilwaith	8,986,091	(1,341,361)	(1,604,700)	(816,001)	(3,762,062)	5,224,029
Cyfarwyddwr a Chefnogaeth	1,471,987	(101,371)	(7,593)	(307,581)	(416,545)	1,055,442
CYFANSWM AMGYLCHEDD	37,100,034	(3,895,564)	(6,622,649)	(5,034,661)	(15,552,874)	21,547,160

	CYLLIDEB 2005/2006 £	GWIRIONEDDOL 2005/2006 £	CYLLIDEB 2006/2007 £
<u>AMGYLCHEDD</u>			
GWASANAETHAU DATBLYGU			
Cadwraeth a Gweithredu	92,439.00	98,445.73	95,251.00
Eru - Rheolaeth a Chefnogaeth	156,590.00	130,384.42	152,590.00
Eru - Chefnogaeth busnes	146,493.00	127,834.90	144,731.00
Marchnata	200,553.00	228,906.56	265,531.00
Prosiectau Amcan 1	315,984.00	288,128.51	322,500.00
Twristiaeth	253,388.00	271,596.99	251,446.00
Ystadau Diwydiannol	(278,539.00)	(303,459.77)	(282,818.00)
Adfywio a chyllid allanol	275,063.00	321,575.96	275,422.00
Swyddfeydd	1,728,243.00	1,750,914.34	1,761,975.00
Ystadau Amaethyddol	(157,612.00)	(157,021.20)	(162,450.00)
Depos	0.00	17,548.72	6,779.00
Eiddo Amrywiol	59,055.00	38,278.06	58,502.00
Rhandiroedd	1,252.00	1,604.76	1,255.00
Prisio ac Ystadau	314,708.00	330,595.74	323,014.00
Grŵp adeiladu'r Sir	171,379.00	99,415.94	204,897.00
Dylunio a datblygu Sir Ddinbych	151,764.00	75,184.50	148,263.00
Iechyd a Diogelwch	174,871.00	192,750.49	439,943.00
CYFANSWM GWASANAETHAU DATBLYGU	3,605,631.00	3,512,684.65	4,006,831.00
GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL			
Cyfleusterau Cyhoeddus	338,111.00	336,633.26	322,959.00
Lluwch tywod	34,786.00	20,400.00	0.00
Prif ffyrdd – goleuo stryd	129,191.00	102,740.17	138,796.00
Ffyrdd llai – goleuo stryd	353,774.00	394,905.11	472,729.00
Gwasanaethau Contract	290,199.00	285,677.21	409,084.00
Parciau a mannau agored	855,467.00	962,087.49	908,154.00
Mynwentydd	113,640.00	124,895.38	105,050.00
Casglu ysbwriel a gwaredu gwastraff	4,389,088.00	4,376,892.94	4,840,976.00
Cynnal Amgylcheddol	1,351,697.00	1,352,570.28	1,372,977.00
Gwasanaethau Amgylcheddol	237,542.00	228,538.04	387,896.00
Gwasanaethau Cymunedol – rheolaeth a chefnogaeth	22,160.00	54,527.44	0.00
Cynnal a chadw priffyrdd - gweinyddu	256,030.00	233,329.57	0.00
Goleuo stryd - gweinyddu	74,416.00	67,262.54	0.00
CYFANSWM GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL	8,446,101.00	8,540,459.43	8,958,621.00
CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD			
Gwarchod y Cyhoedd – rheolaeth a chefnogaeth	288,246.00	287,617.20	249,975.00
Diogelwch Bwyd	224,043.00	227,246.20	225,626.00
Iechyd a Diogelwch - gorfodaeth	83,460.00	83,366.42	85,115.00
Iechyd y cyhoedd	146,183.00	167,464.68	150,891.00
Rheoli Llygredd	189,644.00	181,235.43	182,221.00
Gwasanaethau gwyddonol	70,773.00	76,271.27	71,805.00
